

GORCHYMYN TRAFFIG DROS DRO
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR
(CROESFAN REILFFORDD PENCOED, HENDRE ROAD, PENCOED) 2025

HYSBYSIR DRWY HYN fod y Cyngor, fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Pencoed, drwy arfer ei bwerau o dan adran 14(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), wedi gwneud Gorchymyn sy'n cyflwyno'r cyfyngiad a nodir yn yr atodlen isod dros dro.

Mae'r Gorchymyn er budd diogelwch y cyhoedd yn sgil gwaith cynnal a chadw ar y trac yng Nghroesfan Reilffordd Pencoed.

Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 20/10/2025 a bydd yn parhau i fod mewn grym am uchafswm o 18 mis neu hyd nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, pa un bynnag sydd gyntaf.

Rhagwelir y bydd y gwaith arfaethedig yn cael ei wneud rhwng 22:00 a 06:00 o 20/10/2025 i 21/10/2025.

Amserlen

Ni chaiff unrhyw berson achosi i unrhyw gerbyd fynd ar hyd Croesfan Reilffordd Pencoed, Hendre Road, Pencoed.

Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau yw trwy Hendre Road, Min y Nant, Ffordd Liniaru Hendre, Penprysg Road, Penybont Road, Hendre Road, ac i'r gwrthwyneb

Ni fydd mynediad yn cael ei gynnal ar gyfer y gwasanaethau brys. Bydd mynediad i gerddwyr i'r holl eiddo o fewn y cyfyngiad yn cael ei gynnal ar hyd llwybrau diffiniedig trwy gydol cyfnod y cau.

Fodd bynnag, dim ond ar yr adeg ac i'r graddau a nodir o bryd i'w gilydd gan arwyddion traffig a ragnodir gan Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 y bydd y cyfyngiadau yn gymwys.

Dyddiedig: 13/10/2025

K Watson, Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio AD a Pholisi Corfforaethol - Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB

K Watson, Chief Officer Legal & Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB